

Y model atomig

Mae datrys diffiniadau yn ffordd hwyliog o brofi a chyfnerthu dealltwriaeth y dysgwyr o'r termau allweddol a'r diffiniadau. Dywedwch wrth y dysgwyr roi'r diffiniadau o dermau allweddol at ei gilydd ac wedyn defnyddio'u dealltwriaeth o'r termau i gwblhau brawddegau. Mae'r atebion ar gael isod ac maent yn cael eu darparu ar ffurf sleidiau hefyd. Fel y modelau Frayer cysylltiedig, mae datrys diffiniadau yn ymchwilio i ddealltwriaeth y dysgwyr ac yn targedu'r termau anoddach yn y rhestr o dermau allweddol.

Syniadau ar gyfer addasu

Integreiddiwch sgiliau siarad a gwrando yn y gweithgaredd hwn:

- Argraffwch y grid datrys diffiniadau a thorri o amgylch y blychau unigol. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd blwch yr un a threfnu eu hunain – fel dosbarth neu grŵp – i greu'r gwahanol ddiffiniadau. Pan fydd pawb yn barod, gofynnwch i bob dysgwr ddarllen ei ran ei hun o'r diffiniad yn ei dro.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y sleid cwblhau'r cysylltiad yn llawn.
- Fel addasiad cyflymach o'r dasg, ystyriwch gynnal gweithgaredd 'meddwl, paru, rhannu' lle mae'r dysgwyr yn trafod ac yn penderfynu ar y diffiniadau cywir mewn paru neu grwpiau bach.

Rhowch fwy o gymorth drwy gysylltu'r term yng ngholofn A â'r cofnod cywir yng ngholofn B ac efallai'r cofnod yng ngholofn B â'r cofnod cywir yng ngholofn C, ar gyfer yr ychydig dermau allweddol cyntaf yn y grid.

Darllenwch fwy am yr adnoddau datrys diffiniadau a'u defnydd: rsc.li/3Gda32t

Atebion

Darperir yr atebion hefyd ar y sleidiau PowerPoint cysylltiedig.

Atebion Datrys diffiniadau

Y **rhif atomig** yw nifer y protonau yn niwclews atom o elfen benodol.

Y **rhif màs** yw cyfanswm nifer y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom o elfen benodol.

Y **màs atomig cymharol** yw màs cyfartalog atom o elfen gan ystyried y canrannau o isotopau'r elfen sy'n digwydd yn naturiol.

Y **màs cymharol** yw màs gronyn o'i gymharu ag $1/12$ o fàs atom ^{12}C .

Mae **isotopau** yn atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau.

Gwefr gymharol yw gwefr bositif (+) neu negatiff (-) gronyn o'i chymharu â gwefr un proton.

Atebion Cwblhau'r cysylltiad

Dylai'r dysgwyr ddewis rhes D fel y cysylltiadau cywir ar gyfer y frawddeg.

D	Felly	drwy	gan fod
----------	-------	------	---------

Brawddegau wedi'u cwblhau:

Mae'r rhif màs yn dweud wrthym beth yw cyfanswm y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom. **Felly**, gellir cyfrifo nifer y niwtronau **drwy** dynnu'r rhif atomig o'r rhif màs, **gan fod** y rhif atomig yn dweud wrthym beth yw nifer y protonau mewn niwclews atom.

Adnoddau cymorth termau allweddol eraill

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r cymorth termau allweddol ar gyfer pwnc y **model atomig**. Mae'r adnoddau cysylltiedig canlynol ar gael yn rsc.li/3XTkheu:

- rhestr o dermau allweddol – geirfa wedi'i dewis yn ofalus, gyda diffiniadau. Bydd y dysgwyr yn dod ar draws y termau wrth astudio'r pwnc hwn yn y cyfnod allweddol hwn
- geirfa hygyrch – mae'n defnyddio diagramau, enghreifftiau, canllawiau ynganu a mwy i bontio'r bwlch rhwng termau allweddol a diffiniadau
- modelau Frayer – ffordd i'r dysgwyr drefnu eu dealltwriaeth o eirfa newydd drwy weithio drwy bedwar pedrant cysyniadol gyda'r termau allweddol: archwilio, dadansoddi, egluro, cyfnerthu.